# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Mangreoedd di-fwg*

### 7 Gweithleoedd

(1) Mae mangreoedd yng Nghymru yn ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon os ydynt yn weithleoedd.

(2) Ystyr "gweithle" yw mangre—

(a) a ddefnyddir fel man gwaith gan fwy nag un person (hyd yn oed os yw'r personau sy'n gweithio yno yn gwneud hynny ar adegau gwahanol, neu'n ysbeidiol yn unig), neu

(b) a ddefnyddir fel man gwaith gan ddim mwy nag un person ond y gallai aelodau o'r cyhoedd fynd iddo at ddiben ceisio neu gael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth y person sy'n gweithio yno (hyd yn oed os nad yw aelodau o'r cyhoedd bob amser yn bresennol).

(3) Os dim ond rhan o'r fangre a ddefnyddir fel man gwaith, dim ond i'r graddau hynny y mae'r fangre yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon.

(4) Dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig y mae'r fangre yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon.

(5) Mae'r fangre yn ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon drwy'r amser (gan gynnwys pan nas defnyddir fel man gwaith), ac eithrio nad yw mangre a ddefnyddir i unrhyw raddau

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

fel annedd, sy'n ddi-fwg yn rhinwedd yr adran hon, ond yn ddi-fwg pan y'i defnyddir fel man gwaith.

(6) Mae "gwaith", yn is-adran (2), yn cynnwys gwaith gwirfoddol.

(7) Gweler adran 16 am esemptiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2